# Cyngor Cymuned Pentir

## Cofnodion Cyngor Llawn Nos Iau 9 fed o Ebrill 2026
## yn y Ganolfan Penrhosgarnedd am 7.00

1. **Presennol: /Present**
   Cyng I Ellis Cadeirydd, Cyng C W Owen Is Gadairydd; Cyng J Pierce;; Cyng D Jones-Morris; Cyng G Owen; Cyng E Roberts Cyng J Griffiths; Cyng B Jones a'r Clerc
   Hefyd yn bresennol Iwan Ap Trefor Swyddog Traffig Cyngor Gwynedd

2. **Ymddiheuriadau: Apologies**
   Cyng M Jones; Cyng L A James, Cyng H Griffiths; a'r Cyng A Joyce

3. **Croeso / Welcome**
   Croesawodd y Cadeirydd bawb oedd bresennol ag ymestyn croeso arbennig i Iwan Ap Trefor yn ol atom ni i drafod prosiectau Ffordd Penrhos

4. **Cyflwyniad gan Iwan Ap Trefor swyddog traffig Gwynedd am ardal Penrhos**
   Ar ol diolch am ei greoso aeth Iwan ymlaen i son am y cefndir a'r heriau creu Llwybr Llesiant yr ardal oedd wedi codi a'u gwynebu wrth gwblhau elfen 1 a 2 Mae'r arian wedi ei ennill ar gyfer gwedd 3 erbyn hyn ond mae hwnnw allan i ardal Pentir
   'Roeddwyd sylwadau gan aelodau am y gwaith gyflawnwyd o fewn ei ardal
   Cyng D Jones-Morris yn son bod cyflwr gwyneb y ffordd yn achosi pryder gan rai trigolion a'r gŵyn fwyf yw'r ffaith bod llawer o feicwyr yn parhau ar y ffordd fawr a honno wedi culhau. Mae'n ymwybodol bod gor-yrru yn digwydd a holodd eto os oes modd cael arwyddion electronig yn dangos cyflymder trafnidiaeth ar Ffordd Penrhos (Efallai byddai posib i Cyngor Pentir ystyried cyfrannu tuag at y gost a Cyngor Gwynedd eu cynnal wedyn)
   **(IapT)** am edrych mewn i'r posibilrwydd o gyd-ariannu ag yn ymwybodol o'r beicwyr ar y ffordd a parcio ar y llwybr llesiant
   Cyng B Jones yn datgan pryder ynglyn a llêd beth sydd weddill y ffordd fawr ar ei hyd ond yn fwy penodol ar y tro/allt wrth Cae Garnedd
   **(IapT)** Yn amlwg mae'r ffordd i fyny i ofynnion stadudol ond yn cydnabod bod y llecyn dan sylw yn ymddangos yn gylach oherwydd y tro
   Cyng C W Owen yn holi os oes diweddariad am y Groesfan ochr Bangor o fynedfa Ysbyty Gwynedd
   **(IapT)** Parhau i ymgynghori ar hyn o bryd a darganfod cyllid
   Cyng I Ellis yn adrodd fod ceir yn parcio ar palmentydd yn yr ardal ddim yn unig ar y llwybr llesiant a bod angen i wardeiniaid traffig Gwynedd droedio ymhellach na meusydd parcio Ysbyty Gwynedd
   **(IapT)** Nododd y sylw
   **Diolchwyd i Iwan am roi o'i amser unwaith eto ag estyn gwahoddiad pellach iddo yn y dyfodol**

5. **Datgan buddiant / Declaration of interest**
   **Neb**

6. **Derbyn cofnodion / Accept Minutes 12fed o Fawrth / March 2026**
   Derbynnwyd fel cofnod cywir ar gynnig Cyng D Jones-Morris gafodd ei eilio gan y Cyng J Pierce

7. **Materion yn codi o'r cofnodion / Matters arising**

Y Clerc wedi trafod gyda Cwmni lleol ynglyn a cheisio sefydlu y ddol flodau gwyllt yn y Fynewnt ag ymestyn a prosicr bio-amrywiaeth i ardaloedd eraill ledled ardal y Cyngor Y Cwmni yn hapus i gyfarfod a thrafod a chynnig pris ar gyfer yr ail-ffenestr grant GwyrddNi

**Clerc i drefnu a hefyd gwahodd Swyddog grantiau Cyngor Gwynedd** i ymweld a ni i drafod pa grantiau fyddai posib gwneud cais amdanynt

**Ganolfan newydd**

Cyng C W Owen Cyng L A James a'r Cyng A Joyce wedi cyfarfod i drafod ffurflenni llogi ar ei chyfer

Clerc wedi holi am lyfrau Anfonebau a bod 2 ddewis o ran maint papur unai A4 neu A5

**Cytunwyd i archebu maint A5 fydd yn dod fesul 4 llyfr**

Yn dilyn cais gan ein contractwr i ymddeol cafwyd pris gan Menter Fachwen

Derbynnwyd y pris ag i'r Clerc gysylltu nol hefo Menter

2 focs blodau newydd yn barod ag yn amlwg mi gawn eu lleoli wrth i Menter Fachwen gychwyn ein garddio yn ogystal a'r bocsus oedd wrth yr hen ganolfan ond bellach o flaen y ganolfan newydd

**Ynni Capel bach**

Gyda rhagolygon y bydd mwy o ddefnydd i'r dyfodol a costau uned y cyflenwr presennol yn uchel cafwyd pris yr uned llai gan gyflenwr arall ond bod ei gost safonnol yn uwch

**Cytunwyd newid cyflenwr**

**Clerc i gysylltu**

8. **Materion ariannol / Financial Issues**

   I. **Mantolen ariannol / Financial report**

   £6,663.67 yn y cyfrif cyfredol a £42,401,22 yn y cyfrif cadw yn dilyn derbyn llog

   **II. Cofnodion cyfarfod IBC / Minutes of S F C 26/03/2026**

   2 agis am Nawdd **Argymell cyfranu £300 i Cylch Ti a Fi Capel Emaus**

   Yr ail gais o Cyngor Ysgol Ysgol y Faenol am gyfraniad tuag at offer chwaraeon allannol.

   **Gofynwyd am fwy o fanylion**

   Yn sgil gofyn am fwy o fanylion galwodd y Cadeirydd yn yr ysgol a chael ar ddeallt mae menter gan y disgyblion eu hunain oedd hwn ag yn sgil prisio yr holl offer byddai'r gost oddeutu £6K

   **Cadarnhawyd argymhelliad Capel Emaus a Cytunwyd cyfrannu £1K tuag at Ysgol y Faenol ar gynnig Cyng D Jones-Morris gafodd ei eilio gan y Cyng B Jones Derbynnwyd yn unfrydol**

   III. **Polisia**

   Ni chafodd dim ei godi nai drafod

9. **Cynllunio / Planning**

   **Dim gerbron**

10. **Materion y Clerc / Topics from the Clerk**

   **I. Diweddariad / Ganolfan newydd ag Intec**

   Cyfarfod wedi ei gynnal rhwng Snowdonia a cynrychiolaeth o'r Cyngor i drafod y Panel Tan yn ogystal a'r panel diogelu (sydd ar hyn o bryd ddim dan wasanaeth Snowdonia) Mae'r prif banel tan yn yr Ysgol ond mae cyswllt rhwng y ddau. Trafodwyd hefyd sustem cloi y Ganolfan gyda argymhelliad i gloi y drws allannol a wedyn ffob i agor drws y cyntedd

   **Cytunwyd i ofyn iddynt ystyried gael goriad allai gael ei gadw mewn cist goriadau a côd i'w agor yn hytrach na cael goriadau ar gyfer llawer o ddefnyddwyr**

   **II. Grant GwyrddNi**

   Clerc wedi cysylltu hefo Cwmni lleol i ystyried ail afael yn y syniad am Ddol Flodau yn y fynwent ac ymestyn i lleoliadau eraill

   **III. Grantia yn gyffredinnol Mark Gahan**

   Clerc wedi trefnu ymweliad gan Mark ar y 29ain o'r mis

11. **Materion y Cynghorwyr / Councilors Topics**

   Yn gyffredinnol trafodwyd problemau ledled yr ardal o ddatblygiadau yn digwydd heb geisiadau cynllunio **Clerc i holi Cyng Craig Ap Iago i ymweld i drafod opsiynnau/goblygiadau**

12. **Newyddion**

Daeth y cyfarfod i ben am 9.00

Cyngor Cymuned Pentir

# Cynhelir cyfarfod o'r Cyngor Llawn Nos Iau 14eg o Fai 2026 i ddilyn y Cyfarfod Blynyddol yng Nghanolfan Glasinfryn

## Agenda

1. **Presennol: /Present**

2. **Ymddiheuriadau: Apologies**

3. **Datgan buddiant / Declaration of interest**

4. **Derbyn cofnodion / Accept Minutes 09fed o Ebrill / April 2026**

5. **Materion yn codi o'r cofnodion / Matters arising**

6. **Materion ariannol / Financial Issues**
   i. **Mantolen ariannol / Financial report**
   ii. **Cofnodion cyfarfod IBC / Minutes of S F C 29/04/2026**

7. **Cynllunio / Planning**

8. **Is grwp y Ganolfan**

9. **Materion y Clerc / Topics from the Clerk**
   - **Yswiriant** — **Trafod pris adnewyddu**
   - **Capel a telerau y Fynwent** — **Diweddariad**
   - **Cae chwarae Caerhun** — **Ymchwiliad Mis Mehefin**
   - **Calendr 2025-26 Cyngor Pentir**

10. **Materion y Cynghorwyr / Councilors Topics**
    **Cyng J Griffiths** — **Parcio ar faes parcio Canolfan Glasinfryn**

11. **Newyddion**